**Tai Amlbreswyl a Deddf Tai 2004**

**HYSBYSIAD CYHOEDDUS YNGLŶN Â CHYNLLUN TRWYDDEDU YCHWANEGOL**

**Rhoddir rhybudd drwy hyn** bod Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy ar yr 27ain diwrnod o Orffennaf 2025 wedi dynodi cynllun trwyddedu ychwanegol mewn perthynas â Thai Amlbreswyl o fewn rhan o ward etholiadol Pensarn Pentre Mawr. Gelwir y cynllun hwn yn Gynllun Trwyddedu Ychwanegol (Tai Amlbreswyl Ffordd y Mor a Pared y De, Pensarn) Cyngor Bwrdeistref Sirol Conwy 2025 ("Y Cynllun"). Mae'r dynodiad yn unol â Rheoliadau Trwyddedu a Rheoli Tai Amlbreswyl a Thai Eraill (Darpariaethau Amrywiol) (Cymru) 2006.

Mae'r Cynllun mae'r dynodiad yn berthynol iddo wedi cael Cymeradwyaeth Cyffredinol Llywodraeth Cynulliad Cymru dan Ddeddf Tai 2004 (Trwyddedu Ychwanegol Tai Amlbreswyl Cymru) Cymeradwyaeth Cyffredinol 2007 a ddaeth i rym 13 Mawrth 2007. Felly, yn rhinwedd Adran 58 isadrannau (1)(b) a (7) nid oes angen cadarnhau'r dynodiad a daw i rym ar ddyddiad sydd wedi'i nodi yn y Dynodiad

Bydd y Cynllun yn gweithio ynghyd â Chynllun Trwyddedu Gorfodol Tai Amlbreswyl yr Awdurdod Lleol a ddaeth i rym 30 Mehefin 2006. **Daw'r Cynllun i rym ar y 1af o Hydref 2025 ac os na fydd wedi'i ddiddymu cyn hynny neu ei ymestyn fe ddaw i ben ar 30ain o Fedi 2030.**

Mae'r Cynllun yn cynnwys yr holl Dai Amlbreswyl yn yr ardal sydd wedi lleoli ar Ffordd y Mor a Pared y De, Pensarn, Abergele, heblaw'r rhai sydd wedi'u heithrio gan adrannau perthnasol o'r Ddeddf a'r rhai sydd eisoes wedi'u trwyddedu dan y Cynllun Trwyddedu Gorfodol Tai Amlbreswyl.

Dylai pob perchennog, landlord neu asiant eiddo yn yr ardal sydd wedi'i henwi, ofyn cyngor yr Awdurdod Lleol ynglŷn â Thrwyddedu Tai Amlbreswyl.

Er mwyn i gais gael ei ystyried, rhaid darparu manylion rhagnodedig a'r tâl gofynnol.

Mae Ffurflenni Cais ar gael o
Blwch Post 1, Conwy, LL30 9GN
Neu, anfonwch e-bost at trwyddeduTA@conwy.gov.uk

***This document is also available in English***